COFNODION CYFARFOD O IS-BWYLLGOR ARIANNOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN A GYNHALIWYD AR ZOOM, nos Fawrth, Chwefror 9fed, 2021 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, John Gwilym Jones

YMDDIHEURIADAU

Robert M. Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **PRAESEPT 2021 – 2022**

   Penderfynwyd trafod yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn sgîl y posibilrwydd y cynyddir y Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yng nghyfarfod y Cyngor nos fory (Chwefror 10fed). Cynigiwyd i'r Cyngor hwn ystyried yr oblygiadau posibl petai'n newid, h.y. gallai sylfaen drethiannol Llanengan gynyddu 16% i £2441.99 o'i gymharu â'r £2105.34 a dderbynnir o gyfradd Premiwm 50%. Derbyniwyd ymatebion y Cynghorwyr trwy e-byst eisoes ond, credai'r Clerc y dylid cael trafodaeth lawn ar y mater.

3. **CEISIADAU ARIANNOL**

   Awgrymwyd y dylid cyfrannu lleiafswm o gan bunt o hyn allan. Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn a nodir y swm awgrymedig i'w gadarnhau yn y Cyngor llawn nos fory (Chwefror 10fed):

   a) Tŷ Gobaith – £200.00
   b) Y Groes Goch – £100.00
   c) Tenovus – £100.00
   ch) Marie Curie (£150.00 yn 2019 – 2020) – £300.00
   d) O Ddrws i Ddrws – £750.00
   dd) Cerebral Palsy Cymru (Bobath Cymru gynt) – £100.00
   e) Ambiwlans Awyr Cymru (£500.00 yn 2019 – 2020) – £1000.00
   f) Radio Ysbyty Gwynedd – £100.00
   ff) Ffermwyr Ifanc Eryri – £300.00
   g) Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (£200.00 yn 2019 – 2020) – £300.00
   ng) Dawns i Bawb (£100.00 yn 2019 – 2020) – £150.00
   h) Eisteddfod Llangollen (£100.00 yn 2019 – 2020) – £100.00
   i) Theatr Bara Caws (£100.00 yn 2019 – 2020) – £150.00